YR YMOFYNYDD.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] MEHEFIN, 1898. [RHIF 126.

YR EGLWYS GLAIAR.

GAN Y DIWEDDAR GWILYM MARLES.

"Oblegid dy fod yn dywedyd, Goludog wyf, ac mi a gyfoethogais, ac nid oes arnaf eisieu dim; ac ni wyddost dy fod yn druan, ac yn resynol, ac yn dlawd, ac yn ddall, ac yn noeth. Yr wyf yn dy gynghori i brynu genyf aur wedi ei buro trwy dân, fel y'th gyfoethoger; a dillad gwynion fel y'th wisger, ac fel nad ymddangoso gwarth dy noethder di; ira hefyd dy lygaid âg eli llygaid, fel y gwelech."—DAT. iii. 17, 18.

NI gawn yn y cyd-destynau y gwahanol genadwriaethau yr arddengys awdwr y llyfr hwn ei hun wedi cael ei awdurdodi i'w trosglwyddo i saith o eglwysi gwahanol. Mae a fyno'r genadwri yn mhob amgylchiad â chyflwr neillduol yr eglwys a anerchir. Nodir yr hyn sydd ganmoladwy; crybwyllir y pethau a alwent am gerydd; rhoddir rhybuddion angenrheidiol. Mae rhyw onestrwydd a phlaender a dwysder ryfeddol yn rhedeg trwy bob cenadwri; fel y cawn yma lawer o bethau mewn modd arbenig yn hawlio ein sylw ac yn cynwys addysg a chyfarwyddyd i ni. Ar y cyfan, mae mwy o bethau i'w canmol nag i'w beio. Eglwys Laodicea yw yr engraifft waethaf. Mae ei chyflwr hi yn resynol. Mae yn ei thwyllo ei hun.

Tybia nad oes dim allan o le ynddi ei hun. Ni fu eglwys erioed yn fwy cysurus, a mwy cymodlawn â hi ei hun. Mae yn hollol yn y man y mynai fod, heb eisieu tynu dim oddiwrthi, nac

ychwanegu dim ati. Nid oes flinder yn pwyso ar ei hysbryd. Nid oes dagrau edifeirwch yn gwlychu ei gobenydd. Rhydd hûn i'w llygaid a chwsg i'w hamrantau mor dawel a phe buasai ei gwaith i gyd ar ben, a pherffaith iechyd yn llanw ei chyfansoddiad. Ond druan ohoni! Mae gan y Tyst ffyddlawn a chywir air ati; myn dynu'r gorchudd oddiar ei llygaid; mae am yru cyffro drwy ei gwaed sydd fel wedi rhewi yn ei gwythienau. Darllena iddi ei chymeriad: "Mi a adwaen dy weithredoedd," ïe, dy weithredoedd; hwy sy'n dangos; wrth ei waith yr adnabyddir dyn ac eglwys hefyd, yr un modd ag yr adnabyddir prên wrth ei ffrwyth. Y gwaethaf oedd mai eglwys glaiar ydoedd, heb fod y naill beth na'r llall—na byw na marw—dim ond dadfyw.

"Mi a fynwn pe bait oer neu frwd." Ei ddymuniad oedd, nid iddi fod yn oer fel y cyfryw, ond yn oer neu yn frwd; iddi fod yn y fath gyflwr ag y buasai debycaf i deimlo pa fath oedd. Dymunai iddi ddyfod ati ei hun. Rhyw deimlad canol yw y mwyaf marwaidd a digyffro. Mae eithafion—mae gwres mawr, neu oerfel mawr—yn peri i ddyn i deimlo. Hyn, dybygid, yw yr ystyr; oblegid cael yr eglwys i weled ei hun yn y goleu priodol a fynai'r Tyst ffyddlawn a chywir; mae am ddiosg ei mantell dew o hunan-dwyll oddiam dani. Gwisga deimladau rhyfygus ei chalon mewn iaith blaen, a gesyd hi i siarad: "Goludog wyf," &c. Yna try i'w hargyhoeddi ac i'w cheryddu mewn cariad. Dengys mor daer ac awyddus yw am ei gweled yn diwygio; mor llawen fyddai i weled ei bywyd yn deffro o'r newydd; a chyhoedda yr anrhydedd a'r gwynfyd a fydd i'r hwn a ymdrecho yn yr yrfa Gristionogol nes gorchfygu. "Rhoddaf iddo ef eistedd gyda Mi ar Fy ngorseddfainc, megys y gorchfygais Inau, ac yr eisteddais gyda'm Tad ar Ei orseddfainc Ef."

Gofynaf gyda chwi i ddyfod gyda mi am ychydig amser i edrych ar y darlun o EGLWYS GLAIAR, wedi ei dallu gan hunandwyll, heb fod nac oer na brwd, yn bwrw ei bod yn gyfoethog iawn; ac yna i ymofyn pa beth sydd i'w wneyd o dan y fath amgylchiadau, a pha fath eglwys yw yr un oludog mewn gwirionedd. Sylwaf fel y canlyn:—

I. Y GOLUD YR YMFALCHIA EGLWYS GLAIAR YNDDO.

II. YR HYN A OSODAI EGLWYS AR Y FFORDD I GYRHAEDD GOLUD GWIRIONEDDOL A PHARHAUS.

1. *Ymfalchïa Eglwys Glaiar yn ngolud ei rhifedi.*—Goludog wyf. Yr ydym yn rhifo hyn a hyn. Goreu po fwyaf y rhifedi—deallwch hyn—nid wyf yn siarad gair yn erbyn lluosogrwydd. Yr wyf yn siarad yn unig yn erbyn gwaith unrhyw eglwys yn gwneuthnr bost o'i nifer, ac yn gorphwys ar luosogrwydd ei haelodau. Ar ei ben ei hun, nid yw yn brawf o lwyddiant nag o wir iechyd crefyddol. Mae llawer o achosion anheilwng yn peri lluosogrwydd. Mae ffasiwn yn gwneyd llawer; tuedda dynion i

fyned gyda'r llif. Mae mwy o dynfa gan bobl ieuainc, a chan hen bobl hefyd, i gyrchu lle nad yw'r corau yn weigion, a'r pregethwr haner ei amser yn llygaid coed a cheryg, ac nid yn wynebau bodau rhesymol.

Ar ryw adegau mae twymynon a chlefydau yn gyru lluoedd i fanau lle mae y dduwinyddiaeth a bregethir yn addaw diangfa a dyogelwch i ddynion yn fwy oblegid rhyw un cam a gymerant, nag oblegid rhodiad a nodwedd arferol y bywyd. Rheol wan yw amlder rhif. Mae y rhai a elwir yn Gristionogion yn y byd yn y lleiafrif. Mae y Protestaniaid yn y lleiafrif gyda golwg ar y Pabyddion. Y mwyafrif a groeshoeliasant Arglwydd y Bywyd, a wenwynasant Socrates, a lofruddiasant Stephan, a losgasant filoedd o oreuon y ddaear wrth ystanciau, a fwydasant y ddaear â gwaed y rhai nid oedd y byd yn deilwng ohonynt.

Rhifedi ynddo ei hun ni phrawf un cadernid gwirioneddol, un gwir nerth, na rhagoroldeb. Ffol i eglwys ymffrostio yn ei rhifedi. Mae gwers adeiladol i ni yn yr hanes am Dafydd yn peri cyfrif y bobl, a'r farn a ddaeth arno mewn canlyniad. Cafodd, yn ol yr hanes, ei ddewis o dair gwialen : newyn, ei orthrechu a'i ddifetha gan ei elynion, neu haint y nodau. Mae un neu yr oll o'r pethau hyn, a siarad yn ffugyrol, yn sicr o ganlyn bob amser lle'r eir i gyfrif y bobl. A pha fath bobl a gyfrifir? Cangenau byw, ffrwythlawn y winwydden? Na, gall y bydd eu haner yn grin, neu â dim ond dail arnynt. Gall mai rhifo ysgerbydau, crug o esgyrn sychion a wneir, a'u galw yn aelodau o gorff bywiol yr Iesu.

2. *Ymfalchïa Eglwys Glaiar mewn cyfoeth, yn yr aur a'r arian sydd yn meddiant ei haelodau.*—Da eto ydyw cyfoeth, moddion y gellid gwneyd lles anhraethol trwyddynt. Llawforwyn wych i grefydd yw cyfoeth. Mae aur ac arian yn ofynol er arllwys rhanau anial y byd yn foesol yn gystal a naturiol. Rhaid i gymdeithasau crefyddol gael eu dwyn yn mlaen trwy dreuliau fel cymdeithasau ereill, ac mae dyn â chyfoeth, a chalon rydd o ddifrif ganddo, yn aelod gwerthfawr; ac mae cael pob aelod, yn ol mesur y llwyddiant a roddodd Duw iddo, yn gwneyd ei ran, yn beth hyfryd. Ond nid wrth gyfoeth eglwys y mae mesur y gwaith a wna, na'r dylanwad a garia. Mae yn ffaith y fynyd yma mai nid yr eglwys gyfoethocaf yn y wlad hon sydd yn cyfranu fwyaf. Dyweyd gwirionedd wyf ag sydd yn taro, nid yn unig eglwysi ereill, ond yr eiddom ni ein hunain. Mae yn rhaid i eglwysi wrth gyfraniadau. Mae llawer o achosion teilwng yn galw am weithrediad cymdeithasol ein heglwysi i gyfranu. Felly mae hi wedi bod, ac felly mae hi yn awr.

Ond, atolwg, ffordd y bydd llawer yn cyfranu? Fe ddywedir am rai, ond enllib yw hyny, os clywant neu ddeallant fod casgliad, eu bod yn sâl, neu wedi myn'd oddicartref, ar y Sul hwnw. Ond am ereill, er dyfod i'r capel, pa faint gyfranant? Llawer ddim. Ereill y nesaf peth y gallant i ddim. Ereill mor lleied a allant, heb fod yn gywilyddus o ddrwg. Ereill ryw odreuon y tybiant y

gallant eu hebgor heb wneyd bwlch yn un man arall. Mae cyfoeth yna. Oes. Ond dan glo y mae. Mae digon o flawd yn y coffrau, ond yno y mae; ac nid yw'r weddw a'r teulu lluosog sy'n byw ger llaw ronyn gwell o hyny, mwy na'r cardotyn diymgeledd. Mae yna aur ac arian—ond gellir dyweyd, "Eich aur a'ch arian a rydodd o ran yr hyn mae achos crefydd yn well ohonynt." Ië, ni wiw i neb achwyn, "caled yw'r ymadrodd." Pa'm na ddywedir y gwir ar hyn fel ar bethau ereill? Nid fy mai yw dyweyd y gwir; bai y cyfryw yw sy'n peri fod y gwir yn finiog ac yn hallt oblegid eu hymddygiad. Na farner llwyddiant ac iechyd eglwys wrth faint y cyfoeth a gedwir yn ystor, ond wrth faint y cyfoeth a wasgerir. Dyna gynulleidfa ragorol fyddai un yn cael ei gwneyd i fyny o weddwon tlodion o stamp y wraig weddw dlawd hono a fwriodd yr hyn oll oedd ganddi i drysorfa yr Arglwydd. Goludog yn wir fyddai eglwys o gael calon hono—y fath ffydd, ewyllysgarwch, brwdfrydedd, y fath gariad at achos Duw.

3. *Ymfalchïa Eglwys Glaiar yn ei bri hynafol.*—Y clod a ddaw o enwogrwydd oesau yn ol—tadau a mamau ag oeddynt yn ddifrifol a ffyddlawn. Hen arfer eglwysi claiar yw ymffrostio yn hyn. "Mae ein heglwys ni yn hen. Bu i ni gynt weinidogion doniol, dysgedig, dylanwadol, aelodau urddasol a rhinweddol. Yr oedd eu clod trwy yr holl wlad." Rhagorol o beth yw hyn eto. Ni ddywedaf air yn ei erbyn. Mantais fawr yw bod yn nglŷn â hen gymdeithas yn rhifo yn mhlith ei meibion rai o ser dysgleiriaf y wlad a'r hiliogaeth. Ond drwg o beth yw adeiladu ar hyn. Byw ar glod y tadau, a gwneyd dim yn uwch i deilyngu clod yn awr na gwyngalchu beddau y proffwydi a fu. Os bu y tadau yn ffyddlon yn eu dydd hwy, da. Diau nad oedd eu llafurus gariad hwy yn esgus dros i'w plant blethu dwylaw a chysgu. Eu gwaith hwy, ymaflasant ynddo; gwaith eu plant, mae yn aros i'w plant i'w gyflawni.

Gorchfygasant hwy; ac yn iaith Llyfr y Datguddiad, cawsant eistedd ar yr orseddfainc; ond ni wnaiff eu grymusderau hwy ein codi ni i'r orseddfainc, os nad ymdrechwn a gorchfygu, fel y gwnaethant hwy. Plant Abraham ydym ni! Eithaf da, os gwnewch weithredoedd eich tad. Ond na orphwyswch eich teilyngdod a'ch anrhydedd ar yr hyn a wnaeth ef. Mawrygwch eich enwogion, ond yn unig fel blaenoriaid, "Ffydd y rhai dilynwch, gan ystyried diwedd eu hymarweddiad hwynt."

(I'w barhau.)

Y PRAWF goreu o egwyddorion dyn yw ei ymarweddiad.

NID siarad, ond rhodio gyda Duw, sydd yn rhoddi i ddyn yr enw Cristion.

ER COF AM CARADOG.

(Buddugol yn Ngwyl Lenyddol Cwmdar, Ebrill 30ain, 1898.)

Y BEIRNIAD ffraethbert a'i gyfoethog ddawn
Gylymai glust ei genedl wrth ei wefus;
Y gwron ganodd wlad i urddas llawn
A huna weithian mewn dystawrwydd melus.
Fe dreulia mynor mewn ystormus hin,
A mantell anghof guddia lawer enwog;
Ond collir cân o Gymru wen ei hun,
Cyn collir coffadwriaeth gwyn Caradog.

Ar lànau'r Cynon fwyn y magwyd ef,
A'i wanwyn fu yn nifyr swn yr eingion!
Ond buan teimlwyd nerth ei duedd gref,
A'i freiniol allu'n mysg ein prif gerddorion.
Ei eilun oedd ei wlad; ei fywyd oedd
Yn fri i'w gwyliau; buddugoliaeth enwog
Enillwyd ganddo, wnaeth i'r byd roi bloedd
I'r Cor, cerddoriaeth, Cymru, a Charadog.

Edmygai pawb ei sefydlogrwydd certh,
A'r asbri gweithgar a ddatguddiai'i anian;
Cyflawnai ddistadl waith mewn gwrol nerth,
Fel blod'yn yr anialwch wrth ei hunan.
Ei garedigrwydd lifai, nid o'i fin,
Ond calon a'i gollyngai'n ffrwd risialog;
Pen ffordd anrhydedd gwyn i lawer un
O fro dinodedd tywyll fu ein Caradog.

Rhaid bellach ymfoddloni yn y byd,
Heb deimlo melus ddoniau ei gwmpeini;
Ond gallwn ei ddelweddu'n llon o hyd,
Dan addurn prydferth ei gerddorol deithi.
Dan bwys adgofion o'i hawddgarol wedd,
Ac addurn bythol-wyrdd ei fywyd enwog,
Ni blanwn flodau tirfion ar ei fedd,
Yn gysgod o'n hanwyldeb at Caradog.

Cwmdar. B. VAUGHAN.

MEWN adfyd mae egwyddorion dynion yn ymddangos.
AMSER a ddysg yr hwn nid oes iddo ddysgawdwr arall.

SEFYLLFA GYMDEITHASOL A GWLADOL YR HEN FRYTANIAID.

(Papyr a ddarllenwyd i Gymdeithas Cymrodorion Merthyr.)

(*Parhad o'r Rhifyn diweddaf.*)

NIS gallwn ymatal heb ddyweyd gair am wisgiadaeth ein hen dadau Celtig, oblegid dywedir eu bod yn "lliwio eu cyrff â lliw glas, ac amryw luniau anifeiliaid rheibus, er mwyn dychrynu eu gelynion," &c.; felly, yr oeddynt yn myned oddiamgylch fel dynion gwylltion, noethlymyn. Ni fu gwaeth delweddiad o drigolion Terra del Fuego, neu gyn-drigolion Awstralia, na'r uchod. Derbyniwyd yr adroddiad uchod am oesoedd lawer fel efengyl o ran gwirionedd; ond erbyn heddyw, dechreuir amheu hyn gan ymchwilwyr gonest a diduedd.

Dywedir fod cyrff y gwrywod a'r benywod yn Gâl yn llwyr orchuddiedig gan wisgiadaeth gyflawn; oddigerth rhai llwythau oedd yn byw yn mhell o'r môr, ac yn trigo mewn cilfachau gwledig; dywedir am danynt hwy eu bod yn dra difater am eu gwisg—eu bod yn gwisgo crwyn, yn byw mewn lluestai o wiail plethedig, &c.; ac nad oeddynt yn cyfathrachu, nac ychwaith yn cymdeithasu, â dyeithriaid. Er hyn i gyd, addefir fod yr holl lwythau Celtaidd yn ymdebygu i'w gilydd yn eu holl arferion a'u defodau cymdeithasol a theuluaidd; ac os oedd trigolion Gâl yn gorchuddio eu cyrff â dillad cyflawn, ai tebygol fod trigolion Ynys Prydain yn arfer byw a bod yn noethion pan oedd y fath gyfeillgarwch a'r fath unoliaeth genedlaethol, yn nghyda'r fath gydebygolrwydd mewn teimladau ac arferion teuluaidd, yn bodoli rhyngddynt? Dywed Cesar yn groew ddigon, "Fod trigolion y rhan ddeheuol o'r Ynys yn gyffelyb yn eu harferion a'u defion i'r eiddo trigolion Gâl." Hefyd, dywed Strabo wrthym am drigolion gwrywol Ynysoedd Scilly (Cassiterides), "Eu bod yn gwisgo dillad llaes, a gwregys am eu canol, a siaced hyd at y gliniau, yn cerdded â ffyn yn eu dwylaw, ac yn farfog fel geifr" (Lib. iii. ch. v.). Felly, os oedd y gwŷr mor gyflawn wisgedig, a oedd y menywod yn wahanol? I'r hyn y gellir ateb yn ddiamwys—Nag oeddynt, oblegid yr oedd y boneddigesau Prydeinig yn addurno eu hunain â chywreinion, ac â thlysau aur; gwisgent am eu gyddfau dyrchedau o aur pur, o wneuthuriad cywrain; gorchuddient eu cyrff â mantelli o sidan a phali symudliw, a gwisgoedd amryliw ysnodenog, a chydient y cyfryw â boglynau aur, ac â gweill arian; ac yn wir, ni fu yn un sarhad na darostyngiad yn chwaeth tywysogesau Rhufain eu dynwared yn hyn; a

chan faint yr urddas a'r bri a delid i'r wisgiadaeth Brydeinig, ni thybiasant yn ormod ddwyn yr arddull Brydeinig i Rufain, gan ymgymeryd at y ffurf o wisg yn nghyda'i henw, a hyny heb gynyg cyfieithu yr enwau, sef, y twyg, y wisg, a'r dorch. Prawf hyn fod gwehyddiaeth yn gelfyddyd arferedig yn mhlith y genedl Frytanaidd er yn foreu.

Yr ymholiad nesaf sydd yn codi ydyw, Yn mha fath dai y trigent? Gan y dywedir "eu bod yn llechu mewn coedydd," a ydyw yn debygol fod ganddynt dai o gwbl? Nid oes genym yr un desgrifiad cyflawn o'u tai ar gael yn un man; wel, ynte, a raid i ni gymeryd y dystawrwydd hwn yn ganiataol nad oedd ganddynt dai o gwbl? O, na, gan bwyll—dim o'r fath beth. Dywedir fod trigolion Gâl yn trigo mewn tai cyhoeddus, yn ol angenion a gofynion teuluaidd. Tybed fod trigolion Prydain, y rhai yr edrychai trigolion y Cyfandir i fyny atynt, yn lletya mewn coedydd, heb ganddynt dai o un math yn y byd? A chaniatau mai y Phoenisiaid a ddygasant y gelfyddyd o adeiladu tai o geryg a phriddfeini gyntaf i Ewrop, trwy eu trafnidoedd a'u cysylltiadau masnachol, tybed ynte na chafodd y gelfyddyd dderbyniad a meithriniad gan gelfyddydwyr Prydain? Do, do, oblegid dywed Cesar dan ei ddwylaw, "fod y wlad yn llawn o drigolion, a chanddynt dai wedi eu hadeiladu yn ol dull y tai oedd yn Gâl." Dywedir am y trigolion eu bod yn "lletygar a charedig i ddyeithriaid." Os nad oedd ganddynt *dai* cyfaddas a theilwng i'w croesawu, nid ydynt yn werth y *compliment* o fod yn rhai "lletygar." Beth bynag a ddywedir, y mae yn amlwg ddigon fod trigolion Ynys Prydain yn byw mewn tai—cyffelyb tai a geid y cyfnod hwnw yn ngwledydd y Cyfandir; a'r rhai hyny wedi eu dodrefnu â byrddau, ac â seddau, ac â chadeiriau cyffelyb i'r rhai a welir genym ni heddyw. Y mae batheiniau aur Cynfelyn yn eu harddangos; a chawn fod eu byrddau yn cael eu hulio â bwydydd mewn llestri aur ac arian, a chanddynt lwyau a chyllyll prydferth at ymborthi â hwynt, a chwpanau addurnedig â phob cywreinwaith arnynt i yfed "medd" a "chwrwf eplesedig." Ai anwariaid yn byw mewn coedydd oedd y fath bobl a hyn? Hefyd, y mae gwedd arall ar y cwestiwn; nid trigo mewn tai gwledig oeddynt, eithr yr oeddynt hefyd yn trigo mewn trefi a dinasoedd, yr hyn sydd yn dodi gwedd uwch ac anrhydeddusach ar y trigolion.

Enwir oddeutu deg-ar-hugain o hen ddinasoedd caerog o fewn yr Ynys. Deallwn i Cesar yn y tymhor byr y bu yn Mhrydain yr ail waith, sef o Gorphenaf 21ain hyd Medi 21ain, A.D. 54, iddo ddinystrio llawer o feddianau, llosgi llawer o dai, llosgi a dinystrio llawer o'u trefydd, yr hyn, wrth gwrs, oedd yn ei olwg ef fel buddugoliaeth. Ac yn mhellach cawn, yn mhen yn agos can' mlynedd ar ol hyn, pan y daeth Aulus Plautius, drwy orchymyn Claudius, i hawlio y deyrnged arferol, iddo ddwyn gydag ef y ddau flaenor bydenwog Vespasian a Titus, y rhai, wrth ymladd â'r Brytaniaid, a losgasant dros ugain o'u dinasoedd

caerog, y rhai oedd yn llawn o breswylwyr. Rho'wch chwareu teg i'r hen Frytaniaid hefyd, nid ydynt lawn cynddrwg ag y myn rhai i ni gredu eu bod. Y mae y ffaith fod yn Ynys Brydain gynifer o ddinasoedd caerog (gadawer iddynt fod o bridd, serch hyny), yn cyflwyno i'n sylw amryw wirioneddau, sef, Bod y dinasoedd hyn yn gofyn trefniant llywodol dinesig i'w rheoli â chyfreithiau addas a phwrpasol i ateb gofynion cymdeithasol a gwladwriaethol y preswylwyr; ac y mae y ffaith hon yn unig yn codi safle trigolion Ynys Prydain o fod yn anwariaid haner noethion i fod yn gyfartal i drigolion Rhufain ei hun.

Er holl groes-ddywediadau hynafiaethwyr am yr Hen Frytaniaid, casglwn yn ddiamwys oddiwrth y ffeithiau crybwylliedig eu bod, fel cenedl, yn mhell uwchlaw y safle isel hono o fod yn farbariaid—eithr eu bod yn genedl ddiwylliedig a llwyr wareiddiedig yn yr ystyr uchelaf. Oherwydd yr oeddent yn feddianol ar holl elfenau ac ar y cyfryngau hyny sydd yn nodweddu cenedl ar binacl gwareiddiad. Gweithient mewn haiarn, *bronze*, *tin*, a phlwm; defnyddient yn eu masnach arian bâth, o aur, arian, a chopr; preswylient mewn tai, a'r rhai hyny o geryg triniedig, a hyny ganoedd o flynyddoedd cyn Crist. Yr oedd ganddynt at eu gwasanaeth holl adnoddau cysuron teuluaidd, mewn llestri hylaw a phwrpasol at wahanol ofynion a goruchwylion y teulu. Yr oedd ganddynt drefi a dinasoedd caerog i gynal eu marchnadoedd, ac yn ganolfanau llywodraethol y wladwriaeth er cynal eu llysoedd barn cyhoeddus.

Hefyd, yr oedd y wlad wedi ei gwau â ffyrdd cyhoeddus, olion y rhai sydd i'w gweled hyd y dydd heddyw; a diau na wnaeth y Rhufeiniaid namyn gwella a helaethu y cyfryw at eu hwylusdod eu hunain. Heblaw ei bod yn genedl fasnachol, yn dal cymundeb â phrif farsiandwyr y byd y cyfnod hwnw, yr oedd preswylwyr y wlad yn dilyn goruchwylion amaethyddol, a chanddynt feusydd eang o ŷd, &c.; a bod ganddynt ddiadelloedd lluosog o ddefaid; gyroedd o wartheg blithion, yn nghyda greoedd o geffylau porthianus. Eu bod yn rhyfelwyr triniedig, a chanddynt arfau o haiarn-wneuthuriad at wrthsefyll ymosodiadau gelynion, ac yn fedrus yn eu trin.

Bod ganddynt gorfforaeth o ddynion dysgedig at addysgu ac hyfforddi eu pobl ieuainc mewn moes a chrefydd, ac yn eu meithrin yn y celfau a'r gwyddorau, mewn meddyginiaeth, llysieuaeth, seroniaeth, ac athroniaeth. Ac eu bod yn fedrus i ysgrifenu materion cyhoeddus y genedl mewn llythyrenau nid anhebyg i eiddo y Groegiaid, oddigerth yr areithiau crefyddol hyny a draddodent i'r myfyrwyr am urddau crefyddol, y rhai a gyflwynid ar dafod-leferydd yn unig. Bod eu gwybodaeth a'u dysgeidiaeth mor fyd-adnabyddus, nes yr oedd pobl ieuainc gwledydd y Cyfandir yn dyfod atynt i dderbyn eu haddysg, ac fod tymhor eu hefrydiaeth yn para am ugain mlynedd, o leiaf.

Eu bod yn derbyn y cyfenwad gan y Groegiaid o fod y bobl ddedwyddaf o dan y nefoedd; eu bod yn trigo mewn cariad,

heddwch, a chydgordiad â'u gilydd, ac â phawb; a bod eu hoffeiriaid yn ymgymdeithasu â'r duwiau; telir y parch iddynt felly gan y Groegiaid. Nis gallwn anghofio ymweliad Abaris â Pythagoras, a'r croesawiad a gafodd yno. Awgrymir am eu dysgeidiaeth hyd yn nod gan Cesar, Tacitus-Strabo, a Diodorus, ac yn neillduol gan Lucan y bardd, yr hwn a gyfaddefa ei ddyled i Dderwyddon Prydain am y syniad o sefyllfa ddyfodol a bytholdeb bywyd, &c.

"Chwychwi, Dderwyddon, a'n dysgasoch ni
Nad tywell fedd yw terfyn einioes dyn;
Nad eiddo'r gwelw Arch Deyrn obry ef,—
Mewn byd tuhwnt i'r llen ei ysbryd sydd
Yn llawn o nwyfiant a bywiogrwydd chwai
Am byth; Marwolaeth—Angeu, nid yw hyn
Ond megys cul fynedfa i ryw fyth
Barhaol a blodeuog fywyd cu."

Y mae o dan y syniadau hyn wirioneddau sydd yn adlewyrchu yr anrhydedd mwyaf ar wybodaeth ac athrawiaeth foesol yr Hen Frytaniaid; mai nid byw i fwynianau bywyd tymhorol a darfodedig yr anifail yr oeddent, eithr byw er mwyn byw bywyd anherfynol—yr ysbrydol; a'u harwyddair oedd—"Y Gwir yn erbyn y Byd;" "Heb Dduw heb ddim;" "A Duw a digon;" ac yn benaf oll, "Duw a phob Daioni."

GWERNYFED.

LLITH J. J. T.

At Olygydd yr "Ymofynydd."

SYR,—Nid wyf wedi eich blino er's llawer dydd bellach am ychydig o ofod ar dudalenau yr YMOFYNYDD. Nos Sul, Mai 8fed, aethum i wrando ar y Parch. Beynon Davies, Briton Ferry gynt, yr hwn sydd yn ddiweddar wedi dyfod yn weinidog i'r gangen fechan o Annibynwyr yn Nhrealaw. *Split* ydyw o Ebenezer, Tonypandy. Bu anghydfod a diflasdod rhyfedd rhwng yr aelodau a'u gilydd a'r gweinidog hefyd, ac fe barodd hyny iddynt ymranu; ac y maent wedi dechreu achos iddynt eu hunain, ac wedi bod mor llwyddianus a chael y Parch. Beynon Davies yn weinidog iddynt.

Cymerodd ei destyn yn Phil. iv. 22: "Y mae y saint oll yn eich anerch chwi, ac yn benaf y rhai sydd o deulu Cesar." Yr oeddwn yn methu yn lan a deall pa beth a allasai ddywedyd ar y fath destyn; ond dywedodd ef ei hun: "Dichon fod rhai

difeddwl yn synu am y testyn;" a rhaid i mi gyfaddef fy mod i yn un o'r rhai hyny.

Ar ddechreu ei bregeth, dywedodd fod llawer o ddynion mawr a da wedi eu carcharu, a'n bod ni, trwy eu dyoddefiadau a'u hadfyd hwy, wedi cael llawer perl gwerthfawr oddiwrth bersonau o'r fath; a mwy na thebyg na fuasai epistolau Paul ddim gyda ni pe buasai Paul wedi osgoi y carcharau. Un peth oedd yn darawiadol iawn i mi oedd ei ddylanwad ar ei wrandawyr. Yr oedd yn trafod ei bwnc gyda'r hwyl mwyaf melus, a hyny i'r teimlad yn unig. Mae yn rhaid i mi ddywedyd nad oeddwn i yn gallu gweled fawr sylwedd yn ei bregeth; ond yr oedd yn eglur fod ei wrandawyr yn derbyn mwyniant mawr oddiwrth ei ymadrodd; ac yn wir, yr oedd yn gallu traddodi yn gyflym, ac yn gallu myned i'r hwyl yn dda.

Y pwys mawr a roddodd yn ei bregeth oedd, ein bod ni yn cael myned i'r nefoedd trwy Iawn a haeddiant Crist—bratiau budron oedd ein holl weithredoedd ni. Dywedodd fod crefydd Crist yn ddigon i'r byd; ac nad oedd dim arall a allasai ddigoni yr enaid dynol ond crefydd Crist; ac fod holl grefyddau y byd yn methu a digoni y gofynion sydd yn yr enaid. Yr oeddwn i yn meddwl ar y pryd fod yn rhaid i bob un ddyfod oddifewn i'r gredo Iawnffyddol cyn y gallasai hyd yn nod crefydd Crist ein hachub.

Dywedodd hen frawd duwiol wrthyf yn ddiweddar nad oedd yn bosibl i'r Undodwyr fyned i Deyrnas Nefoedd, oherwydd ein bod ni yn gwrthod Iawn Crist, yr unig ddrws y gall dyn fyned i mewn trwyddo; ond fe ddywedodd Mr. Davies ar ei bregeth na fuasai dim son am enwadaeth yn y nefoedd; y buasai pob enwad yn cael ei lyncu a dyfod yn un corff, fel y mae y môr yn llyncu yr afonydd; ac fe enwodd lawer o enwadau fuasai yno, ond ni enwodd yr Undodiaid.

Mae pwys mawr yn cael ei roddi ar Iawn Crist. Mae yn ymddangos i mi mai rhyw dori mawr yw Duw, fel nas gall neb fyned ato ond trwy ryw ffafr, a hyny trwy haeddiant un arall. Mae syniadau o'r fath hyn yn cael dylanwad mawr ar fy ysbryd, ac yn achos yn aml i'm harwain i dir anffyddol. Os ydyw yr Hwn sydd gariad ac yn Dad Nefol, ac eto yn gwrthod pawb os na chaiff Ef Ei dalu yn llawn am ein beiau ni, yr wyf fi yn sicr fy mod i yn feddianol ar fwy o foesoldeb na'r Bôd Hwnw. Nis gallaswn i wrthod un o fy mhlant ond iddo ddyfod at fy nrws i a dywedyd: "Fy nhad, mi bechais yn erbyn eich ewyllys chwi, ac yr wyf yn edifarhau am hyny;" yr wyf yn sicr na fuasai eisieu yr un iawn arnaf fi cyn derbyn fy mhlentyn i fewn, a hyny yn gariadus.

Yr wyf yn cofio am y bregeth fythgofiadwy hono a bregethodd y Parch. R. J. Jones, Aberdar, yn Nghwmclydach, ar "Dŷ fy Nhad." Pregeth a gafodd ddylanwad mawr arnaf fi oedd hono. Yr oeddwn yn gweled nad oeddwn wedi gwneyd fy nyledswydd fel tad; yr oeddwn yn gweled llawer o fanau gwan,

a llawer o ffaeleddau ar fy nyledswydd i fel tad. Yr wyf yn credu yn y Duw hwnw a bregethodd Mr. Jones i ni fel ein Tad Nefol, na allasai Ef wrthod yr un a ddaw ato, a hyny yn edifeiriol; ond dywedodd y Parch. Beynon Davies ar ei bregeth chwedl ddifrifol iawn am fardd yn hedeg ar aden dychymyg i'r nefoedd, ac fe welai yno dŵr o bobl, rhai yn hen a rhai yn ieuainc; ac yno yr oeddynt mewn dadl frwd. Clywai un hen wr yn dywedyd mai efe oedd y marmor harddaf ac uchaf yn y nefoedd. Meddai: "Yr wyf fi wedi bod yn dyngwr, a rhegwr, a'r meddwyn mwyaf ar y ddaear, ac yr wyf wedi trochi fy llaw yn ngwaed fy nghyd-ddyn, yr wyf wedi bod yn fwrddwr; ond fe ddaeth Crist mewn pryd, ac fe nghipiodd i o dân uffern drag'wyddol, a dyma fi heddyw yn y nefoedd." Ebe un arall: "Na, nid y ti yw y marmor glanaf sydd yma; y fi ydyw. Yr wyf fi wedi gwasanaethu yr Iesu er pan yn fachgenyn ieuanc, ac wedi gweithio yn ngwinllan Duw trwy fy mywyd—y fi ydyw y glanaf." Yr oeddwn i yn meddwl fod y rhan gyntaf o'r hanesyn uchod yn rhoddi esiampl ddrwg iawn o flaen pobl ieuainc.

J. J. T.

ARHOLIAD BLYNYDDOL YR YSGOL SUL.

GYMERODD yr ail Arholiad le nos Fercher, Ebrill yr 20fed, pryd y daeth ymgeiswyr yn nghyd i bob capel, i gael eu mesur a'u pwyso gan yr arholwyr apwyntiedig. Y mae 259 o ymgeiswyr wedi bod yn llwyddianus y flwyddyn hon, tra nad oedd y nifer ond 175 y flwyddyn ddiweddaf. Fe welir oddiwrth hyn fod ychydig gynydd wedi cael ei wneyd yn ystod y flwyddyn, yr hyn sydd yn gefnogaeth i'r pwyllgor i fyned yn y blaen â'r gwaith o barotoi y Gwersi ar gyfer Arholiad 1899. Ond eto, nid yw y nifer yma yn foddhaol, ac ni fydd yn foddhaol, hyd nes y byddo ein Hysgolion Sul, ryw ugain neu ragor mewn rhif, yn danfon o leiaf 25 ar gyfartaledd o ymgeiswyr, yr hyn fydd yn gwneyd i fyny y cyfanswm anrhydeddus o 500. A gawn ni weled y nifer yma yn dyfod i fyny cyn bo'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn tynu ei hanadl olaf? Ein Hysgolion Sul wna benderfynu'r cwestiwn.

Caiff pob un basiodd Dystysgrif ddestlus eleni eto, a gwnawn ein goreu i'w danfon i bob ysgol mor gynted ag y byddo yn bosibl; a gobeithiwn y tynir sylw yr holl ysgolheigion atynt wrth eu cyflwyno, yr hyn fydd yn foddion i ddeffroi bywyd newydd yn ngwaith yr Ysgol Sul. Gobeithiwn gael y Gwersi ar gyfer yr Arholiad nesaf allan o'r Wasg tua dechreu Awst, a cheir o leiaf

chwe' mis i'w parotoi. Ceir manylion pellach eto drwy gyfrwng yr YMOFYNYDD. A ganlyn sydd restr o'r rhai llwyddianus yn y gwahanol Safonau a'r Dosbarthiadau.

WILLIAM JAMES, } Ysgn.
T. ARTHUR THOMAS, }

Llandysul, Mai 12fed, 1898.

SAFON I —DOSBARTH 1.

Bwlchyfadfa.—Ellen Thomas, Eliza Thomas, Ellen Davies, Mary Thomas, Anne Evans, John Jones, Enoch Evans, Evan Davies, E. Tom Thomas, Evan Tom Lewis.

Capelybryn.—David Jones, Daniel Jones, Tom Jones, Lizzie Thomas, Margaret Thomas, Hannah Davies. Yr oll gydag anrhydedd.

Brondeifi.—Nicholas Rees, Stanley Lewis Price, Tom Jones.

Caeronen.—Daniel Jenkin Thomas a Violet Anne Evans, gydag anrhydedd. Benjamin Rees, Tom Lloyd, David Rees, Sarah Jane Evans.

Cefn.—Richard Davies, Cledwyn Davies, Johnny Harries, Joseph Williams, Johnny Jones.

Aberdar.—David Rees Davies.

Cribyn.—Anne Davies, Ebenezer Davies, David Davies.

Capelygroes.—Evan Evans, Hannah Williams.

Rhydygwin.—Catherine Ellen Jones, Eliza Morgan, Margaret Jane Thomas, Margaret Lloyd, Thomas W. Jones, John W. Davies, Jenkin S. Davies, Daniel Jones, W. Thomas Davies, Isaac D. Jones, Tom Lewis Jones.

Llandysul.—Evan Lloyd, Samuel Lloyd, John Thomas, John D. Jones, Martha Lloyd, Margaret Thomas, Rachel Thomas, Anne Jones, Margaret Jones, Mary Lloyd, Alice Maud Griffiths-Jones, Hannah Lloyd, Sarah Anne Lloyd, Winnie Richards, Mally Evans, Cerdin Evans.

Llwynrhydowen.—Griffith Griffiths, Dan Jones, Eliza Evans, Mary Ellen Jones, Eleanor Evans.

Gellionen.—William John Bowen, Willie Lewis, Evan Morgan, William Morgan, Daniel Bowen, Maggie Bowen.

DOSBARTH 2.

Gellionen.—William John Morgan, Harriet Morgan, W. John Bevan, Margretta Bowen, Elizabeth Saunders.

Aberdar.—Edith Edwards, Maggie Griffiths, Edith Griffiths, Edith Howells, Gertie Rees, Myfanwy Lewis, Jeannie Rees, Maggie Lloyd, Richard Davies, Willie Thomas Davies, Rachel Evans.

Capelygroes.—James Davies, Judith Mary Davies.
Brondeifi.—Dan Jenkins.
Caeronen.—Rees William Rees.
Cefn.—Daniel Morgans, Morgan Lewis.
Rhydygwin.—John Lloyd.

SAFON II.—DOSBARTH 1.

Bwlch.—Ellen Thomas, Eliza Thomas, Mary Anna Thomas, Sarah Evans, Mary Anne Jones, James Oliver Lewis, Johnny Thomas, David Thomas, John Jones, Evan Davies, Enoch Evans, Evan Tom Thomas, Evan Tom Lewis.

Capelybryn.—Mary Thomas, Sarah Ellen Jones, Margaret Ellen Lloyd, a Timothy Tom Jones, gydag anrhydedd. Rachel Davies, Mary Hannah Stephens, William Williams, Oswald Williams.

Alltyplaca.—Sarah Evans, Margaret Evans, Lizzie Williams, Annie Evans, Hannah Williams, David Thomas.

Brondeifi.—Lizzie Jones, gydag anrhydedd.

Caeronen.—Lizzie Davies a Rachel Mary Evans, gydag anrhydedd. Ivee Davies, Daniel Jenkin Thomas, Mary Rees, Ellen Jane Rees.

Cefn.—Annie Price a Margery Davies, gydag anrhydedd. Elizabeth Anne Morgans, Maggie Anne Willams, Bessie Williams, Mary Jane Morgans, Annie Rees, Elizabeth Sarah Rees, Mary Dorothy Thomas.

Cribyn.—Mary Anne Evans, Sarah Rees, Martha Evans, Rachel Evans, Hannah Mary Lloyd, Owen Lloyd Jones, James Rees Evans, Willie Davies.

Capelygroes.—David Williams, John Evans, Howell Howells, Tom Evans.

Rhydygwin.—John W. Davies, W. T. Davies, William Lloyd, Hannah Lloyd, Catherine Ellen Jones, Mary Davies.

Llwyn.—John Jones, William Thomas.

Gellionen.—Rees Davies, Jenkin Morgan, a Morgan Davies, gydag anrhydedd.

DOSBARTH 2.

Cribyn.—John Daniel Jones, Rees Jones.

Brondeifi.—Terwyn Davies, David Davies, Daniel Lewis Jones.

Cefn.—Mary Jones, May Lewis, Annie Morgans.

Rhydygwin.—Daniel Jones, Catherine Williams.

SAFON III.—DOSBARTH 1.

Bwlch.—Eliza Thomas a Margaret Thomas, gydag anrhydedd. Thomas Thomas, John Penry Lewis, Daniel Jones, Thomas G. Thomas, Thomas Davies.

Caeronen.—Anne Davies, Mary Anne Davies, Mary Evans.

Cefn.—Willie Harris, Richard Jones, William Morgan, Willie Jones, Gwen Jones, Lily Harries, Anne Jones.

Capelygroes.—Jenkin Evans.

Llandysul.—Hannah Jones, Margretta Evans, Elias Davies, David John Evans, Dan Arthur Jones, Johnny Owen James, Tom Evans, John Owen Jones.

Pantdefaid.—David Davies, Jeannie Evans, Sarah Evans, Anne Jones, John Jones, Getta Thomas—yr oll gydag anrhydedd.

Llwyn.—Elizabeth Jones, Dinah Jones, David Jones, David Davies.

Gellionen.—Mary Lewis Bowen.

Capelybryn.—Mary Davies, Jane Rees.

DOSBARTH 2.

Cefn.—William Thomas, Dan Lewis, John Lewis, Elizabeth Anthony, Maggie Williams.

Aberdar.—John Davies.

Gellionen.—Rachel Anne Bowen.

SAFON IV.—DOSBARTH 1.

Bwlch.—Eliza Thomas, Margaret Davies, Thomas G. Thomas, Dan Jones.

Caeronen.—Anne Davies, Mary Anne Davies, Mary Evans.

Llandysul.—John Davies, Gwilym Ifan Jones, James Davies.

Pantdefaid.—David Davies, Anne Jones, Jeannie Evans, Getta Thomas, Sarah Evans, John Jones—yr oll gydag anrhydedd.

Llwyn.—Elizabeth Jones, Dinah Jones, David Jones, David Davies.

Gellionen.—David Davies, Johnny J. Williams, John Hopkin.

Ciliau.—Mary Jonathan.

Rhydygwin.—Margaret Owen, David Jones, Mary Jones, (Cwmscawen), Evan Jones, Daniel Jenkins, Jane Davies, William Jones, Hannah Davies, Margaret Anne Evans, Joshua Evans.

Capelybryn.—Mary Davies, Jane Rees.

DOSBARTH 2.

Bwlch.—John Penry Lewis, Thomas Thomas, Thomas Davies.

Gellionen.—Benjamin Davies.

Rhydygwin.—Mary Jones (Croyddin Castle), David Rees Davies.

Y BWTHYN DEDWYDD.

MAE bwthyn yn y dyffryn draw, yn nghŵr y ddôl dan allt y fron,
Ac afon encyd fèr islaw yn llifo ar ei thaith mor llon;
O gylch y tŷ mae perthi hardd, a llwyni roddant gysgod gwiw,
A choed afalau yn yr ardd, a blodau o hawddgaraf ryw.

Mae llwybrau tlysion gylch y tŷ, hyd odre'r allt, a gwàr y ddôl,
Ac at y ffynon dardda fry o dan y coed, ac yn eu côl;
Ymlithra bychain draed yn chwai ar hyd-ddynt foreu a phrydnawn,
A dwylaw bychain godant dai, nes yw y llenyrch oll yn llawn.

Gwel acw'r tad ar doriad dydd yn cychwyn tua'r tyddyn mawr,
Ei droed yn ysgafn fel yr hydd, ei wedd yn wridog fel y wawr;
Gadawa ei anwyliaid bach mewn balmaidd hûn yn nghol eu mam,
A theimla gallai farw'n iach cyn gweled un yn goddef cam.

Yr hwyr pan ddaw yn ol i dref, pob aelod iddo'n llesg a blin,
Bydd rhedeg i'w gyfarfod ef, a thaer ymryson am ei lin;
Ei helynt iddo ddyg pob un, tra gwrendy yntau mor ddiglwy',
Nes cofia'r pryd y bu ei hun yn ieuanc fel yn awr maent hwy!

Am dano'n dysgwyl wrth y drws, a chariad yn goleuo'i grudd,
Ac yn ei breichiau faban tlws, ei briod i'w roesawu fydd;
Mor ber eu hymgom pan i lawr eisteddant wrth y bwrdd mewn hedd,
Gylch aelwyd lan, o fach i fawr, ac iechyd siriol yn eu gwedd!

Ar ol swpera, mae y tad yn parchus agor Gair y Nef,
A'r fam mor ŵyl, y plant mor fad, yn cydymgrymu gydag ef;
Rhyw nefol bresenoldeb draidd, nes llanw'r fechan demel hon;
A'r weddi wan nas clywir braidd ymddyrch hyd byrth y gwynfyd llon.

I orphwys änt, a Ffydd diffael, fel angel cu, yn gwylio dros
Y lle gorweddant, ac yn hael fendithio tawel oriau'r nos.
Y dydd a'u caiff eu heinioes drwy yn llawn o newydd hoen a bri—
Pan huna natur hunant hwy, dihunant pan ddihuna hi.

Fel hyn yn ddedwydd dreulio'r nos, fel hyn yn ddiwyd dreulio'r dydd;
Y fron heb deimlo nemawr loes, heb nemawr ddeigryn ar y rudd;

Eu bywyd brau ehed i bant, a hwy heb wybod, gan eu hedd,
Nes dynion bellach yw y plant, a'u rhiaint bron ar fin y bedd.

O Gymru! rhwng dy fryniau serth, ar wastad dy ddyffrynoedd per,
Mae llawer bwthyn sydd yn werth yr holl balasau dan y ser;
Ceir yma serch a chariad pur, a didwyll foesau boreu byd,
Fel blodau yn y diffaeth dir, yn gwasgar eu bendithion drud.

GWILYM MARLES, 1858.

SION LLEWELYN O GOEDYCYMER (1690-1776).

CHWEFROR 28AIN, 1870.

GELWAIS heddyw yn Mhantysgawen, i weled yr hen frawd anwyl Lewis Llewelyn. Achwynai ein bod yn cael gauaf caled. Dyoddefai lawer iawn oddiwrth y fogfa. Pwnc mawr ei ymddyddan heddyw oedd Sion Llewelyn, yr hen frawd o Goedycymer. Dyma beth o'i 'stori:—

"Soniai fy nhad lawer am yr hen Sion Llewelyn, yr hwn oedd yn byw yn un o'r hen dai ger llaw Pontycapel. Heliai ei docyn wrth labro. Yr oedd yn ddyn nerthol, ac enillodd enwogrwydd mawr wrth drychu coed. Yr oedd yn drychiwr gwell na'r cyffredin, ac hefyd yn weirwr (torwr gwair) heb ei fath. Adroddir am dano un tro ei fod yn Maesyfaenor yn tori gwair gyda dau ereill. Hyd frecwest, bu y tri yn tori gyda'u gilydd. A'r pryd hwnw, daeth y ferch forwyn a bwyd i'r cae. "Dyro i wel'd," ebe Sion, "faint sy genti? 'Does yma ddim mwy na alla i fyta m'hunan. Dyro fa yma, a cherdd ditha tua thre i mofyn peth i'r ddau ereill." A gwir oedd y peth. Fe'i bytodd i gyd—bwyd y tri! Wedi gorphen, dywedodd wrth y ddau ereill:—"Yr ydych chi'ch dau yn ifanc, ac nid yw yn taro rhoi dyn fel fi i geisio eich dilyn chi. Yr ydych yn golygu tori'r cae teirar (a elwid felly am mai tair erw a gynwysai) rywbryd, a chyda'ch cenad, mi äf fi tuag yno." Cydsyniodd y ddau, ond yn meddwl, serch hyny, mai ychydig o waith a wnelai efe yno. Pan ddaeth yr amser, dyma'r ferch forwyn yn dyfod a chinaw iddo; ond ateb yr hen wr oedd: "Yn wir, ferch, 'does gen i ddim 'stymog. Cerdd ag e 'nol," a pharhaodd yntau gyda'i waith. Rhwng tri a phedwar, wele'r ferch forwyn drachefn a chynechwydd ganddi. Ond yr un oedd ateb yr hen wr: "Dim 'stymog; cerdd ag e 'nol." a pharhaodd yn tori gwair o hyd, ac fe'i torodd i gyd; ac yr oedd wedi swpera ac yn darllen dyledswydd pan yr oedd yr haul yr myned i lawr.

Deubryd oedd ei arferiad, mae'n debyg; a gellid meddwl fod ei hirbryd yn gwneuthur mawrbryd. Aethai allan y boreu â'i gŵd am ei wddf, ac yr oedd yn bwyta ar hyd yr holl ffordd o'i gartref hyd at ei waith, lle bynag y byddai. Yna gosodai ei gŵd ar y neilldu, a pharhäi gyda'i waith drwy'r dydd hyd yr hwyr, yn ddistop o hyd. Wedi hyny, cymerai ei gŵd i fyny drachefn, a bwytäi'r holl ffordd adref, neu cyhyd ag y parhäi y bwyd.

Ni fu iddo ond un plentyn* (merch); a phan oedd hono yn fechan, dygwyddodd i'r fuwch fyned yn hesb (yr oedd yn cadw buwch fynychaf), a mawr oedd galar y wraig oblegid hyny. Yr oedd yn methu deall sut y gallent fagu'r plentyn heb laeth. Cymerai efe y mater yn ysgafn iawn, fodd bynag, ac atebodd iddi:—

"Cais flawd ceirch hen o'r felin,
A dw'r o ffynon Tocyn;
Ti faethi'r ferch, er gwaetha'r fuwch,
I neidio cuwch ag undyn."

Adroddodd Lewis Llewelyn hanesyn hefyd am Niclas Siams. Yr oedd Niclas, a Sion ei frawd a'i wraig, yn byw y pryd hwnw yn nhai Penywaun; ac yr oedd Lewis un tro, yn hogyn, ac yn byw gyda'i dad yn y Gamlyn, wedi ei anfon â'r ceffylau i'r cwmin; ac wrth basio heibio tŷ Niclas Siams, clywai rywun yn darllen; ac wedi edrych a gweled mai Niclas oedd yno, â'i Destament yn ei law, "Beth, f'ewyrth Niclas," ebe Lewis, "ydych chwi yn wneuthur â llyfr, a chwithau ddim yn gwel'd?" "Wel, yn wir, Lewis, alla i ddim ateb; ond yr w i yn lico cael llyfr yn fy llaw. Rw i yn ffansïo mod i'n cofio yn well."

R. J. JONES.

O.Y.—Tad Jenkin Llewelyn, diacon hynaf Hen Dŷ Cwrdd, Aberdar, ydoedd Lewis Llewelyn. Bu farw Edmund Llewelyn, tad Lewis, Chwefror 13eg, 1829, yn 67 oed; ac ymddengys felly ei fod tua 14 oed pan fu farw Sion Llewelyn.—R.J.J.

---

* Yn hytrach, nid oedd ganddo y pryd hwn ond un, efallai. Fel hyn y dywed Sion yn un o'i ganeuon:—

"Cael hir broffesu crefydd, flynyddau haner cant,
Cael byw yn nghyda'th briod i fagu wyth o blant,
Cael pymtheg ŵyr ar hugain, rhoi'r pethau hyn yn nghyd,
Beth oedd i'w gael yn rhagor o fwyniant hyn o fyd?"

Y CYFEILLION goreu pan y b'och yn eistedd yw llyfrau da.

COLLED i'w berchen yw cyfoeth, ond cymaint ohono a enfyn o'i flaen.

JOHN ISHMAEL JONES.

XIII.

YR oedd yn awr tua dechreu haf. Wrth feddwl a myfyrio, wrth bregethu yn rheolaidd, a gwaith ychwanegol tymhor y gauaf; wrth ei ymdrechion yn mhlith y tlawd a'r trallodus, a'r mil ac un galwadau sydd yn d'od i'r dyn yr hwn sydd yn was i bawb, a'r hwn a ystyrir yn gyffredin fel a chanddo ddim i'w wneyd—teimlai Mr. Jones ei hun yn flin a lluddedig, ac mewn angen am ychydig orphwys. Meddyliai pe yn alluog i gymeryd mordaith fèr, i ymweled â lleoedd newyddion a golygfeydd newyddion, y buasai hyny yn help i gryfhau ei bender-fyniadau ar ol y cynhwrf mewnol a aethai drwyddo. Pwy a wyddai na fyddai i rywbeth ddygwydd fel ag i agor y ffordd iddo allan o'i ddiffaethwch presenol?

Yr oedd yn wybyddus yn awr am beth amser ei fod tan rwymau—yn *engaged*—i Margaret, ac yr oedd yn arferol o dreulio llawer o'i amser hamddenol wrth ei hochr. Anghofiai bob drwg a gofid yn ngoleu ei gwyneb. Pan gyda hi, yr oedd yn mharadwys; ac yn unig pan y gadawai hi yr aethai allan ac i lawr i derfysg a strugyl bywyd. Ond pan y byddai allan, meddyliai, efallai, ryw ddydd na chai ddychwelyd ati, ac ni welai ond y cerubiaid â'r cleddyf tanllyd ysgwydedig yn gwahardd iddo fyn'd i mewn; a gwnelai hyn ef yn flin ac yn druenus. O'r braidd y gallasai ei gadael am gyhyd o amser i fyned ar ei wyliau.

Ychydig a freuddwydiodd y buasai y fordaith a'i ymweliad â Llundain yn achos i gwmwl bychan i godi yn y dwyrain, yr hwn wnai gyrhaedd hyd y gorllewin, a thywyllu ei derfyngylch.

Nid ein hamcan ydyw desgrifio y daith, na'r hyn a welodd nac a glywodd. Ymwelodd â llawer o gyfeillion, ac yn eu plith un meddyg parchus, yn nhŷ yr hwn y treuliodd rai diwrnodau. Pan y dychwelodd, yr oedd yn ei gwmpeini foneddiges, yr hon a adawodd yn nhŷ ei gyfaill Tom. Bu llawer o siarad rhyngddo ef â Tom ar yr adeg hon, ond nid oes genym hawl eto i wybod beth ydoedd.

Cyn i Mr. Jones ymadael, yr oedd y gwres annyoddefol ag sydd yn y gwanwyn yn ymweled â'n trefi mawrion wedi peri dychryn fod yna ryw haint yn agos. Clywid fod y *cholera* mewn trefydd heb fod yn mhell odddiyno. Ac yn awr, yr oedd tywydd poeth Mai, yn nghyda diffyg yn ngofal iechydol y lle, wedi parotoi y ffordd iddo dd'od i'r dref hon.

Pan y gwnaeth ei ymddangosiad gyntaf, gadawodd llawer o'r rhai oedd yn alluog y lle. Cauai y rhai oedd yn byw ar y bryniau o amgylch y dref, lle yr oedd yr awyr yn bur, eu hunain i fyny

yn eu tai, a gadawent y dref i shiffto drosti ei hunan. Fel arfer ar y fath achlysuron, y rhai ddyoddefent fwyaf oedd y tlodion, y rhai oedd yn byw yn y lleoedd gwaelaf a bryntaf o'r dref. Glynodd y meddygon yn ddewr wrth eu gwaith; ond eu hanhawsder mawr oedd cael neb i edrych ar ol ac i ofalu am eu cleifion. Yr oedd yr ofn wedi gyru cyfeillion, ac hyd yn nod berthynasau agos, i ofalu yn hunanol am neb ond achub eu hunain.

Ond arosodd rhai eneidiau dewr; a chan fyned o un tŷ i'r llall, gwnaent yr hyn allasent dros y rhai oedd yn marw, a chynorthwyent i dalu y gymwynas olaf iddynt. Yn mhlith y blaenaf o'r rhai yma yr oedd Mrs. Grey. Yr oedd yn mhob man yn ddiflin yn gofalu ac yn gwylio, y nos yn gystal a'r dydd. Fel hyn y dywedai Mr. Smiley, y diacon, wrth gyfaill iddo :—

"Nid oes genyf yr un amheuaeth nad yw hyn ond barnedigaeth Duw ar bechaduriaid y dref, ac nid yw yn iawn i ni interffero. Pan y bydd wedi dial digon, pryd hyny y gwna atal Ei law."

A danfonodd nodyn i Mrs. Grey, rhan ohono a ddarllenai fel y canlyn :—

"Chwi a wyddoch fy mod wedi cymeryd dyddordeb bob amser yn llwyddiant eich enaid. Yr ydych wedi bod yn inffidel, ac yn gwawdio ordinhadau Duw; ac yr wyf yn eich rhybuddio i beidio peryglu eich bywyd fel hyn hyd nes y byddwch wedi gwneyd heddwch âg Ef."

Eisteddodd hithau i lawr lle yr ydoedd wrth erchwyn gwely y claf, ac ysgrifenodd wyneb arall y ddalen, ac a'i dychwelodd gyda'r geiriau yma :—

"Chwi a gredwch mai barnedigaeth oruwchnaturiol Duw ar y drygionus yw hon. Oddieithr eich bod chwi ynte yn ystyried eich hunan fel un o'r pechaduriaid, ac yn agored i'r un perygl, paham na adewch eich lle dyogel ar ochr y bryn a dyfod lawr i'n cynorthwyo? A ydych yn meddwl nas gall Duw daro y bryn hefyd? Neu na all eich dyogelu yma? Yr wyf yn credu mai canlyniad naturiol anwybodaeth ac aflendid y bobl yw y cyfan. Ac er eu bod hwy wedi ei ddwyn arnynt eu hunain, eto y mae yn rhaid i mi eu cynorthwyo goreu gallaf. Nid oes genyf amser yn awr i 'achub fy enaid;' y mae genyf ormod o waith i achub bywydau rhai ereill. Ai ni fyddai yn dda i chwi ddarllen geiriau yr Hwn a ystyriwch fel yn Dduw: 'Pwy bynag a ewyllysio gadw ei fywyd, a'i cyll; a phwy bynag a gollo ei fywyd o'm plegid I, a'i caiff.'"

Cafodd ei synu yn fawr, a theimlai yn sarhad fod "inffidel" yn beiddio ei geryddu ef—y dyn blaenaf yn yr eglwys. Ond aeth hi yn mlaen â'i gwaith.

Buan iawn y darfu i'r gwylio am nosweithiau hirion, ac anadlu awyr afiach, ddechreu effeithio ar ei chyfansoddiad. A phan ddechreuodd yr haint gilio, a phan feddyliodd fod ei gwaith bron terfynu, dihunodd i'r ymwybyddiaeth fod yr haint wedi gafaelu ynddi hithau; a'r boreu y dychwelodd Mr. Jones o

Lundain, cafodd ei chario i'w bwthyn ar ochr y bryn, i dalu am ei ffyddlondeb â'i bywyd ei hunan.

Cyfarfyddodd Dai Sosin â Mr. Jones yn yr orsaf, ac wrth afaelu yn ei law dywedodd:—

"Newydd drwg i chi, Mr. Jones. Y mae wedi bod fel angyles oddiar pan aethoch o ma; a 'nawr ma hi wedi i chymryd."

Yr oedd Mr. Jones yn gwybod am yr haint; ac am nad oedd wedi clywed oddiwrth Madge am rai diwrnodau, hi ddaeth i'w feddwl gyntaf; a gofynodd:—

"Pwy, Dafydd, pwy? Miss Edwards ——"

"Na, na; y ma Miss Edwards yn iach, ac ma hi yn gneyd i gore. Ond ma Mrs. Grey wedi cael i chymryd yn y dwymyn, ac ma arna i ofan y gwaetha."

"Ond pa le mae hi?" gofynodd yn frysiog.

"Ma nhw wedi i chario hi lan i'r tŷ," dywedodd.

"Diolch i chwi am ddyweyd wrthyf, Dafydd; mi äf i'w gwel'd ar unwaith."

Ac heb fyn'd i siarad â Madge, brysiodd i dŷ Mrs. Grey. Yno sylweddolwyd ei ofnau gwaethaf. Yr oedd yn suddo yn gyflym. Gwenodd ei gwyneb gan lawenydd a chroesaw pan aeth efe i mewn, a chymeryd ei llaw oedd eisoes yn oer a dideimlad.

"O, Mrs. Grey!" meddai, tra yr oedd y dagrau yn dallu ei lygaid, "y mae hyn yn galed! Yr wyf wedi dysgu i'ch caru a'ch hoffi fel mam."

"Yr wyf yn falch i glywed hyny," sisialai, "ond mae'r *clock* yn rhedeg lawr yn gyflym."

"Dim ond pythefnos sydd wedi pasio," dywedai, "ac ni feddyliais am hyn." "Ond," sisialai drachefn, "y mae y cyfan yn dda. Cyflawnais yr hyn a ellais. Yr oedd y fath gysur i wel'd mor falch yr oeddynt. 'Dallwn i ddim eu gadael. Ac nid oes arnaf yr un ofn. Y mae yn awr cystal ag erioed. Y mae yn rhaid iddo dd'od; ac y mae yn well ei fod yn d'od yn ffordd dyledswydd. 'Dyw bywyd wedi ei brynu drwy esgeuluso y rhai sy'n dyoddef yn ddim yn werth ei gael——," a chyda hyn gwanhaodd ei llais.

"Dywedwch unwaith yn rhagor," llefai. "A yw y cyfan yn dda?"

"Mae y cyfan yn dda," ychwanegai, gan ddihuno am foment. "Os oes dyfodol, fel rwy'n gobeithio ei fod, ni gawn gwrdd eto. Os nad oes, eto 'dyw Duw yn gwneyd yr un cam. 'Ry'm wedi cael bywyd—cyfle i heipu'n cyd-ddynion. Byddwch ffyddlon, ac—mae'r cyfan—yn dda."

A chyda hyn, syrthiodd i drwmgwsg, o'r hwn ni ddihunodd mwy. Plygodd Mr. Jones ei ben i lawr er gweled a oedd yn anadlu; a phan y gwelodd fod yr anadl wedi peidio, cusanodd ei thalcen, a gwlychodd ef gan ddagrau. "O Dduw!" llefai allan, "pa beth bynag y gelwid hi, fan yma yr huna un o'th seintiau."

Yr oedd y dref yn llawn galar, ac yr oedd ei chlodydd yn uchel ar wefusau y bobl gyffredin, pan y clywsant ei bod wedi

rhoddi ei bywyd i lawr drostynt hwy; ac am ychydig, dystewid pob beirniadaeth o'i hopiniynau yn mhresenoldeb ei bywyd gwrol a'i marwolaeth fwy gwrol fyth. Gan fod ei thŷ yn un bychan, a chymaint o'r rhai oedd hi wedi ymgeleddu yn awyddus am ei dilyn hi i'w bedd, penderfynwyd cynal y gwasanaeth yn y capel. O dan amgylchiadau cyffredin, cawsai hyn ei wrthwynebu fel yn halogi y cysegr.

Prydnawn dranoeth, yr oedd yr eglwys wedi ei gorlanw gan gynulleidfa alarus. Fel yr edrychai Mr. Jones drostynt, nis gallai lai na meddwl am hanes Dorcas; a phan y bu farw, fel y daeth y gwragedd gweddwon yn nghyd, ac yn dangos y peisiau a'r gwisgoedd a wnaethai Dorcas; ac yn wir, darllenodd yr hanes hwn ar ddechreu y gwasanaeth, a theimlai pawb ei fod yn briodol ar yr amgylchiad hwn. Ar ol canu emyn, cododd a rhoddodd allan ei destyn :—

"Mi a ymdrechais ymdrech deg, mi a orphenais fy ngyrfa, mi a gedwais y ffydd; o hyn allan rhoddwyd coron cyfiawnder i'w chadw i mi, yr hon a rydd yr Arglwydd, y Barnwr cyfiawn, i mi yn y dydd hwnw." Dechreuodd gan roddi braslun o'i bywyd. Darluniodd y modd caled a Phuritanaidd y cafodd ei dwyn i fyny, sut y cafodd ei dysgu i gredu fod pob chwareu, pob llawenydd, yn bechadurus; a sut y daeth i gredu ac i garu Duw ag oedd yn dyner ac yn drugarog, ac yn Dad pawb oll. A phan y daeth at y pythefnos diweddaf, yr hyn oedd wedi wneyd dros ereill, heb un meddwl am obaith na gwobr, pallodd ei lais, ac o braidd y gallai lefaru dim.

Yna, ar ol aros am ychydig, dywedodd :

"Dyma, gyfeillion, yw gorphenol ei bywyd. Mi wn yn dda y casineb a deimlid tuag ati yn y dref hon am ei hopiniynau duwinyddol. Ond i mi y mae yn ddistadl, yn mhresenoldeb ei haberth uchel a sanctaidd. Os na ellir casglu grawnwin oddiar ddrain, na ffigys oddiar ysgall, fel dywed y Meistr, yna wrth ba enw y galwn ni hi? Grawnwin a ffigys o gymeriad dyrchafedig, a gwasanaeth anhunanol i'w chyd-ddynion, y mae hi wedi ddwyn. Beiddiaf alw hwn yn fywyd Cristionogol uchel. Gadawer i'r rhai hyny ag sydd wedi byw mor dda ei beirniadu; ac os na chyfyd neb arall eu lleisiau, fe fydd yna ddystawrwydd o glod parchus."

"Ymdrechodd ymdrech deg—ymdrech dros bob achos da. Hi gadwodd ei ffydd—ffydd yn Nuw, mewn dyledswydd, mewn dyn. Y mae wedi gorphen ei gyrfa—gyrfa y gall edrych arni heb gael achos i gywilyddio. Ac yn awr, mi a hyderaf, fod coron wedi ei rhoddi i'w chadw iddi; oherwydd y mae yn rhaid i'r Arglwydd, yr Hwn sydd yn Farnwr cyfiawn, i garu a gwobrwyo cyfiawnder yn Ei blant."

"Ymddengys braidd yn sarhad i'w hamddiffyn yn mhresenoldeb ei bywyd pur. "Ond os 'yn mhob cenedl y neb a wnelo ewyllys Duw sydd gymeradwy ganddo,' yna yn sicr fe fydd croesaw iddi hi. Mae yr hyn a feddyliodd yn ychydig, ond mae

yr hyn a gyflawnodd yn llawer. 'Dyw'r gredo yn ddim os na fydd yn gwneyd y weithred. A phan y cawn ni'r weithred, gallwn gasglu fod yno gredo. Ac yn ddiau, os oes nefoedd, lle mae eneidiau'r cyfiawn ar ol marw, yna pan yr aeth hi drosodd, y mae yn rhaid fod y cri wedi ei godi, 'O! byrth, dyrchefwch eich penau,' i'r cyfiawn yma gael d'od i mewn!"

Yna terfynodd y gwasanaeth drwy roddi emyn arall allan i'w ganu. Ffurfiwyd y cynhebrwng drachefn, a dygwyd hi i'r gladdfa ar ochr y bryn. Yr oedd yr olygfa yn un brydferth ryfeddol, er yn drist. Yr oedd yr haul yn isel yn y gorllewin, ac yn taflu ei belydrau euraidd ar y borfa wyrddlas. Yr oedd y tònau ar yr afon yn dawnsio yn y goleuni. Yr oedd yr awel yn dyner a balmaidd. Ac fel y darllenai Mr. Jones eiriau diweddaf y gwasanaeth, ymddangosai iddo nas gallai ddyweyd dim yn fwy tarawiadol, ar ddiwedd bywyd, yn ffurfafen yr hwn yr oedd cymaint o gymylau ac ystormydd. Pan y gorphenodd, dywedodd, "Felly y rhydd Efe hûn i'w anwylyd."

Pan oedd pawb wedi ymadael, arosodd Mr. Jones wrth ochr yr hen dorwr beddau, yr hwn oedd yn llanw y bedd yn gyflym. Arosodd am ychydig, gan bwyso ar ei raw, ac ar ol sychu ei lygaid â'i lawes, dywedodd :—

"Mr. Jones, feddyliais i ddim y ceisa hi fyn'd mor gloi ar ol yn un fach i."

"A ydych chwi wedi colli plentyn yn ddiweddar?"

"Odw, ma Clary fach wedi myn'd. Glwodd Mrs. Grey y'n bod ni'n wael, ac fe ddaeth làn i hunan i'n helpu ni, ag rodd hi'n wan iawn y pryd hyny. Ro'n ni yn rhy dlawd i gal doctor. A phan biodd hi farw, do'wn i yn gwbod am ddim un pregethwr; achos w' i ddim yn myn'd i un capel. Ag fe ddaeth hi lan, ag fe wisgodd Clary fach, a dododd rosyn yn i llaw hi; ag yna, dallwn i ddim cal hers, ag fe aethon i'n dou â'r coffing bach delen yn y whilber; ag fe'n helpodd i i gosod hi i gysgu o dan y goeden yco. Duw i bendithio hi! 'Rodd hi fel yr haul, yn barod i edrych lawr yn dyner arno'n ni i gyd."

Fan yma eisteddodd i lawr ar y ddaear, ac wylodd fel plentyn.

(*I'w barhau.*)

Q. T.

"ACHOS bach a chais i'w ben,
Ganwaith fu mam y gynen."

"CANYS gwas, pan deyrnaso,
Mae llaw barn yn drom lle bo."

MR. W. E. GLADSTONE.

MAE gwlad, oes gwledydd, yn wylo colled dyn mwyaf a rhyfeddaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yr oedd yn ddiamheu y portreiad goreu o wladweinydd ag oedd egwyddorion uchaf Cristionogaeth wedi ymgorffori ynddo, a cheisiai weithredu bob amser yn ysbryd addysgiadau prydferth y Dyn o Nazareth. Pa bryd y ceir ei gyffelyb eto? Gwnaeth wladweiniaeth yn beth hollol wahanol i'r hyn a arferai fod, a chododd hi nes dyfod yn gelfyddyd gain. A ydym ni, fel Anghydffurfwyr a Rhyddfrydwyr, yn synied yn briodol ein dyled iddo am y breintiau anmhrisiadwy a estynodd i ni? Bu fyw fel tywysog, yn uwch na phawb o'i gyfoedion, a chafodd angladd tywysog.

MANION AC HANESION.

GLANRHONLDA, PENTRE. — Dymuna pwyllgor y *Quilt Scheme*, wrth ddiolch yn wresog i'r cyfeillion sydd wedi dychwelyd y *squares* a'u cyfraniadau, ofyn yn garedig i'r rhai sydd heb eu hanfon, i ymdrechu gwneuthur felly yn ystod mis Mehefin.

CEIR yn y *Traethodydd* am mis Mai erthygl ddyddorol ar "Ddamcaniaeth Foesol Dr Martineau." Awdwr yr erthygl yw y Parch. — Benjamin, gweinidog gyda'r Methodistiaid.

CYMANFA GERDDOROL CEREDIGION.— Dymunir hysbysu fod dyddiad y Gymanfa uchod wedi ei ohirio hyd yr 8fed o fis Mehefin; felly ni fydd ar y laf, fel yr hysbysir hi ar y rhaglen. Credaf mai nid annoeth ac annymunol fydd yr ychydig sylwadau canlynol i rai nad ydynt yn teimlo llawer o ddyddordeb gyda'r canu, yn ogystal a'r holl gantorion sydd a'u sêl a'u brwdfrydedd penaf ar lwyddiant y Gymanfa. Gwir yw fod tipyn o ddifrawder wedi ei gludo i fewn i waith y Gymanfa mewn llawer cyfeiriad; ond nid yw hyn i'w briodoli i'r dynion ieuainc yn gyfangwbl gan, efallai, nad ydynt yn derbyn y dylanwad a'r pwysigrwydd mawr o berffeithio y canu yn yr addoliad drwy help y Gymanfa. Fel rheol, nid yn aml y gwelir y bobl hyny sydd yn arfer mynychu yr addoliad, ac yn canu yn y cwrdd, yn dyfod i'r ysgol gân; felly, o ganlyniad, mae y tônau ag ydym yn geisio eu perffeithio erbyn y Gymanfa yn cael eu hesgeuluso iraddau pell ar ol dydd y Gymanfa. Wel, ynte, y prif amcan sydd genyf mewn golwg ydyw anog pawb ag sydd yn teimlo dros ddiwylliant a chynydd ein hachos yn Ngheredigion, i bresenoli eu hunain yn y Gymanfa eleni Yr ydym, fel enwad, yn cael gair uchel am ein canu cynulleidfaol; ond y gwir yw, nid ydym hyd yn hyn wedi llwyddo i gael safle y Gymanfa i fyny i'r hon a gynaliwyd yn y Llwyn, pryd y darfu i ni glywed y canu mwyaf ardderchog yn hanes ein Cymanfa yn Nghymru. Mae yn galondid genyf allu tystiolaethu nad yw rhagolygon y Gymanfa hon eleni eto i fod ddim yn israddol iddi. Barn Mr. Eiddil Jones, yr arweinydd, am ein Cymanfa eleni yw, y bydd yma ganu gogoneddus dros ben. Hefyd, mae Mr. W. Hevin Williams, Llanbedr, arweinydd y plant, yn tystiolaethu fod y canu

melus a hyfryd gan y plant yn ddigon i roddi boddlonrwydd digonol i bawb a fydd yn bresenol; felly, ynte, gyda'r rhagolygon dysglaer, dysgwylir am Gymanfa fawr o bobl yn nghapel eang y Llwyn. Bydd i rai o ganwyr goreu yr enwad roddi unawdau yn ystod y dydd, a chyda *staff* ardderchog o chwareuwyr, mae yn ddigonol fod y dydd hwn i fod yn ddydd mawr a phwysig yn hanes Undodiaeth yn sir Aberteifi. Yr wyf, fel Ysgrifenydd y Gymanfa, a thros y gynulleidfa yn y Llwyn, yn rhoddi gwahoddiad gwresog i bawb i ddyfod yma i'r Gymanfa hon eleni; a gobeithio y bydd pob capel tu fewn i'r undeb yn gwneyd ymdrech deg i fod oll yn bresenol, er mwyn dangos ein nerth a'n gallu fel enwad bychan yn mysg gwahanol enwadau cryf ereill yn Ngheredigion. Gwneir ymdrech i wneyd pob hwylusdod i'r gwrandawyr; a gobeithio na fydd i'r nodyn anmherffaith hwn fod yn draws ar neb, ond y caiff dderbyniad i'w wir amcan. Hyn, gan fawr obeithio y gwnaiff yr Arglwydd ein bendithio â thywydd tesog, yn ol Ei arfer, i gynal ein gwyl flynyddol.—*John Jones, Rhydowen Mill, Ysgrifenydd.*

MARWGOFION.

Ebrill 19eg, yn 17 diwrnod oed, Annie, baban James a Margaret Davies, Troedrhiwfawr, Llandysul. Claddwyd yr un fechan y dydd Mercher canlynol yn nghladdfa Pantydefaid, a'r Parch. Arthur Thomas yn gwasanaethu.

Ebrill 25ain, ar ol misoedd o gystudd, yn 31 mlwydd oed, Anne, gwraig ffyddlon — Evans, gwehydd, Pencareg. Claddwyd yn mynwent Alltyplaca. Cyflawnwyd y gwasanaeth ar yr achlysur yn y tŷ gan ficer y plwyf, ac yn y capel gan y gweinidog. Gadawodd briod a phedwar o blant ieuainc i alaru yn ddwys ar ei hol; ac nid oes ond y Tad goreu a all wneyd i fyny eu colled.

Mai 1af, yn 61 mlwydd oed, Hannah Davies, Maesyffin, ger Pantydefaid. Yr oedd yr ymadawedig yn aelod ffyddlon yn Mhantydefaid, ac yn dwyn mawr sêl dros yr achos. Perthynai iddi aml rinweddau dysglaer; a phan yn cydymdeimlo, yn cyfranu, ac yn trugarhau, gwnai hyny yn dawel ac yn ddystaw bob amser; yr oedd iddi air da gan bawb o'i chydn bod. Y dydd Mercher ar ol ei marwolaeth, hebryngwyd yr hyn oedd farwol ohoni i fynwent Pantydefaid, pryd y gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. Thomas Thomas, Y.H., ac Arthur Thomas; ac ar lan y bedd gan y Parch. John Davies, Alltyplaca. Yr ail Sul ar ol ei chladdedigaeth, cynaliwyd gwasanaeth coffadwriaethol iddi, pryd y pregethwyd i gynulleidfa luosog, ac ar ddymuniad ei pherthynasau, gan y Parch. Thomas Thomas, Green Park.

Mai 9fed, ar ol cy tudd byr, yn 66 oed, Margaret, anwyl briod Jenkin Jenkins, Wernddu, ger y Pen-nant. Claddwyd y Sadwrn canlynol yn mynwent Capelygroes, pryd y gwasanaethwyd yn y capel gan y Parch. John Davies, ac ar lan y bedd gan y Parch. E. E. Jenkins. Menyw rag orol.

Mai 19eg, Dydd Iau Dyrchafael, William James, Abercar Cottage, Cefncoed, yn 64 mlwydd oed. Yr oedd yr ymadawedig yn frodor o ardal Abergorlech, swydd Gaerfyrddin, ond treuliodd y rhan fwyaf o'i oes ar y Cefn. Bu am flynyddau meithion yn ngwasanaeth Bwrdd Claddu Merthyr, fel torwr beddau yn y Gladdfa Gyhoeddus ar y Cefn; ac yno y parhaodd i weithio hyd nes y lluddiwyd ef gan lesgedd ac afiechyd. Dyoddefodd gystudd caled iawn oddiwrth y cancr yn yr ystumog; ond ymostyngodd i'r cyfan gydag amynedd mawr. Gadawodd ar ei ol weddw, yr hon a fu yn hynod dyner wrtho yn ei gystudd, a thri o blant. Yr oedd Mr. James yn aelod o'r eglwys yn yr Hen Dy Cwrdd, a theimlai ddyddordeb mawr yn mhob peth perthynol i'r eglwys. Claddwyd ei gorff y Llun canlynol yn mynwent y capel yr arferai fynychu, a gwasanaethwyd gan y Parch. Jacob Thomas (A.), a chan y gweinidog.

Joseph Williams, Argraffydd, Swyddfa'r "Tyst," Glebeland, Merthyr.